OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 Rhif 1096 (Cy. 193) (C. 32)

# OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

## Rheoliadau Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 (Cychwyn) 2019

*Gwnaed - - - - 8 Gorffennaf 2019*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 77(1) o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019([1]), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

**Enwi a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 (Cychwyn) 2019.

(2) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "y Ddeddf" yw Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019.

**Cychwyn**

**2.** Daw gweddill darpariaethau'r Ddeddf i rym ar 23 Gorffennaf 2019.

*Rebecca Evans*
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, un o Weinidogion Cymru

8 Gorffennaf 2019

(**1**) 2019 dccc 3.

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn cychwyn gweddill darpariaethau Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 ("y Ddeddf"). Daw gweddill y darpariaethau i rym ar 23 Gorffennaf 2019.

Daeth holl ddarpariaethau eraill y Ddeddf i rym ar 22 Mai 2019 (dyddiad y Cydsyniad Brenhinol) yn unol ag adran 77(2) o'r Ddeddf.